At: Holl Aelodau'r Cynulliad

24 Tachwedd 2009

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Yn dilyn y cwestiynau a godwyd yn y Ddadl ar Wasanaethau Cardiaidd ar 4 Tachwedd, rwy'n ysgrifennu i roi'r manylion diweddaraf i'r Aelodau yngl• n â dau fater: pwerau Gweinidogion Cymru i wahardd peiriannau gwerthu tybaco, a datblygu Strategaeth Rheoli Tybaco i Gymru.

Roedd drafft gwreiddiol y Mesur Iechyd 2009 yn cynnwys darpariaethau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i osod gofynion ar gyfer peiriannau gwerthu tybaco neu eu gwahardd yn llwyr. Wrth i'r Mesur fynd trwy senedd San Steffan, fe'i diwygiwyd i dynnu ymaith yr opsiwn i osod cyfyngiadau ar beiriannau gwerthu. O ganlyniad, darperir y pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn gwahardd peiriannau gwerthu tybaco trwy Ddeddf Iechyd 2009, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Tachwedd. Bydd y pwerau hyn yn ein galluogi i ddileu un o'r prif ffynonellau gwerthu tybaco i bobl ifanc o dan 18 oed. Mae manylion y rheoliadau drafft ar gyfer Cymru wrthi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, ac rwy'n disgwyl cyhoeddi dogfen ymgynghori ar ddechrau 2010.

Rwyf hefyd wedi cymeradwyo Ein Dyfodol Iach yn ddiweddar, sef fframwaith strategol gyntaf Cymru ym maes iechyd y cyhoedd. Un o amcanion allweddol yn y fframwaith hwn yw cyfyngu ymhellach ar ysmygu a'r cysylltiad â mwg ail law trwy adeiladu ar lwyddiant y mentrau cyfredol. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaeth rheoli tybaco erbyn hydref 2010. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion sefydlu gr• p o randdeiliaid i ddatblygu'r strategaeth dan gadeiryddiaeth Chris Tudor-Smith, Pennaeth yr Is-adran Gwella Iechyd.